

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28ain Chwefror 2017

Presennol -Hefin Edwards Cadeirydd, Menai Hughes, Prys Ellis, John D Jones, Einion Edwards, Ffuon Williams, Ieuan Jones, Cyng Peter Lewis Cyng BS Conwy, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Guto G Jones, Helen Ellis
Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 17eg Ionawr 2017

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu yn bresennol

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Cyfeiriodd y clerch at lythyr y Cyngor Sir yn cadarnhau nad oedd gwrthwynebiad i'r Cyngor Cymuned ymgymryd â'r gwaith i atgyweirio'r llwybr yn amodol ar ganiatâd y tîrfeddiannwr a Chyfoeth Naturiol Cymru. Y clerch i gysylltu â CNC ynglŷn â'r mater.

[1.2] Tai Gwag/Cartrefi Conwy.

Y clerch i drefnu cyfarfod pellach gyda Chartrefi Conwy

[1.3] Dwr Cymru/ Byngalo'r Alwen/ Lluniau/Arteffactau

Dywedodd y clerch nad oedd Mrs Arfona Evans wedi cysylltu mhellach.

[1.4] Llythyr Ms Helen Williams/ Cais i brynu darn o Gae Chwarae, Cae Llwyd

Dywedodd y clerch nad oedd gair pellach gan Ms Helen Williams.

[1.5] Band Eang Fibre Optic

Nodwyd yn siomedig cadarnhad gan BT na fyddai gwasanaeth fibre optic yn cyrraedd Pentrellyncymer ar hyn o bryd.

Y brif Agenda

[1.6] [2.5] Golau stryd Maes Aled

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.7] Materion Cynllunio

[a] Codi estyniad cegin unllawr, Tyddyn Bychan, Bunk House, Cefn Brith.

[b] Cais ôl-weithredol ar gyfer adeilad amaethyddol ayb. Hendre Uchaf, Pentrellyncymer.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[1.8] Cyllideb 2017/18

Cymeradwywyd y gyllideb a baratowyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18

[1.9] Asesiad Risg

- [a] Ystafell Blwyf -Nodwyd bod cynhaliaeth flynyddol wedi ei wneud i'r ddau ddiffoddwr tan.
- [b] Bod archwiliad trydanol wedi ei gwblhau ym mis Awst 2015.
- [c] Nad oedd angen prawf legionella
- [d]Mynwentydd- Nid oedd angen sylw i unrhyw beth yn y mynwentydd oddigerth bod y tir yn ddifrifol o wlyb. Y clerc i gysylltu eto hefo Aeron Humphreys ynglyn a'r mater.

[2] Rheolaeth Mewnol

Penderfynwyd parhau ymlaen gyda'r trefniadau presennol fel a ganlyn;

- [a] Pob taliad siec a derbyniadau i gael ei gofnodi
- [b] Mantolen cyfrifon blynyddol i gael ei ddsbarthu i bob aelod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- [c] Pob siec i gael ei lofnodi gan ddau aelod a'r clerc.

[2.1] Parcio o Flaen yr Hen Orsaf Heddlu/Ffordd Rhuthun.

Y clerc i gysylltu gyda'r heddlu bod cerbyd yn barhaol wedi parcio ar y ffordd yn y lleoliad uchod.

[2.2] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

Cyngor BS Conwy, Gwanwyn Glan Cymru

Cadeirydd_____